Eluned Morgan AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: NNDM8595

At Bob Aelod o'r Senedd

2 Gorffennaf 2024

Annwyl gyfeillion

Diolch ichi am ddilyn y ddadl ar yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ar 4 Mehefin. Ysgrifennaf atoch i ddarparu manylion y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sydd wedi'u heintio a/neu eu heffeithio, a'r hyn y gallwch ei wneud os ydych yn poeni y gallech chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod fod wedi eich heintio/eu heintio. Hyderaf y bydd yr wybodaeth ganlynol yn ddefnyddiol i chi ac i'ch etholwyr.

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Cafodd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Mae'n darparu taliadau ex gratia i'r rhai sydd wedi'u heintio ac i'r rhai sydd wedi colli partneriaid wedi iddynt gael eu heintio. Mae'r taliadau yn cael eu gwneud ar yr un gyfradd ar draws y DU ac maen nhw'n cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant. Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru hefyd yn darparu cymorth lles, sy'n cynnwys cefnogaeth gyda hawliadau budd-daliadau, apwyntiadau ysbyty a help ar gyfer y rheini sy'n ceisio cymorth gan asiantaethau eraill, fel addasiadau i'r cartref. Mae hefyd yn darparu cymorth seicolegol wedi'i deilwra yn bersonol i'r rhai sydd wedi'u heintio, eu teuluoedd a'u ffrindiau drwy broses hunanatgyfeirio.

Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig
Cafodd y Bil Dioddefwyr a Charcharorion gan Lywodraeth y DU y Cydsyniad Brenhinol fel rhan o'r broses "cau pen y mwdwl" yn dilyn cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol. Mae hyn yn rhoi caniatâd ar gyfer sefydlu'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig newydd – y cyfrwng a ddefnyddir ar gyfer asesu a thalu iawndal i bawb sydd wedi'u heintio a'u hanwyliaid.

Syr Robert Francis, a luniodd Adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ar Iawndal, fydd Cadeirydd yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig. Ar hyn o bryd, mae Syr Robert yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â chynrychiolwyr y rhai sydd wedi'u heintio i drafod eu disgwyliadau nhw a rôl yr Awdurdod.

Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd yr Awdurdod yn weithredol ac yn dechrau'r taliadau erbyn diwedd 2024. Os ydych yn adnabod rhywun sy'n credu y gallent fod yn gymwys i gael iawndal, mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod yn: www.gov.uk/government/organisations/infected-blood-compensation/authority

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Taliadau interim
Mae taliadau iawndal interim pellach o £210,000 wedi'u gwneud (24 Mehefin) i fuddiolwyr sydd wedi'u cofrestru â chynlluniau cymorth y DU a gafodd eu heintio â HIV a/neu Hepatitis C wedi iddynt gael eu trin â gwaed heintiedig. Ar gyfer y rheini sydd wedi'u heintio yng Nghymru, bydd y taliad hwn yn cael ei wneud ar ran Llywodraeth y DU gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

Taliadau interim i ystadau: Mae'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion yn gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth y DU i dalu £100,000 o daliadau iawndal interim i ystadau pobl sydd wedi marw, pan nad oes taliadau o'r fath wedi'u gwneud yn barod i bartner neu briod yr ymadawedig. Bydd y rhai sy'n gymwys i gael y taliad yn cael rhagor o wybodaeth am hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Dyfodol y cynlluniau iawndal Gwaed Heintiedig
Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd y cynlluniau cymorth ariannol gwaed heintiedig presennol ac wedi dweud na fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud ar unwaith i'r cynlluniau. Bydd y taliadau yn parhau i gael eu gwneud ar yr un lefel tan 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, o 1 Ebrill 2025, bydd taliadau'r cynllun cymorth a dderbynnir yn cael eu cyfrif tuag at ddyfarniad iawndal terfynol y buddiolwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau bod holl fuddiolwyr y cynlluniau yn cael eu trin yn deg, ni waeth ai nhw oedd y cyntaf neu'r olaf i gael asesiad o'u hiawndal gan yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig. Yn y cyfamser, bydd y buddiolwyr yn parhau i dderbyn taliadau fel arfer. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw ddatblygiadau wrth iddynt ddigwydd.

Ceisio sicrwydd
Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn poeni eich bod wedi cael eich heintio yn dilyn trallwysiad gwaed a gafwyd cyn mis Medi 1991, gallwch gael prawf cyfrinachol am ddim ar gyfer Hepatitis C a HIV gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yma. Mae'r perygl o fod wedi cael eich heintio yn isel iawn.

Y Camau Nesaf
Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Ymchwiliad Gwaed Heintiedig: Grŵp Goruchwylio'r Camau Nesaf i Gymru, dan gadeiryddiaeth ein Dirprwy Brif Swyddog Meddygol newydd, Gwasanaethau Iechyd, Yr Athro Pushpinder Singh Mangat. Bydd y grŵp yn gweithio gyda'r byrddau iechyd, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a swyddogion polisi i sicrhau ein bod yn edrych ar argymhellion Adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ac yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau na all hyn fyth ddigwydd eto.

Gan weithio ar y cyd fel pedair gwlad, mae rhai materion y gallwn wneud cynnydd arnynt yn gyflym, a byddwn yn gwneud hynny. Bydd materion eraill yn cymryd mwy o amser.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ichi wrth inni wneud cynnydd ar y gwaith hwn.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care